Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Diwygiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793: Rheolaethau a Gynhelir ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid

**Dyddiad lansio:** Dydd Iau 14 Ebrill 2022

**Ymateb erbyn:** Dydd Iau 7 Gorffennaf 2022

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd, a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant mewn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae Safonau Bwyd yr Alban wedi lansio ymgynghoriad cyfochrog ar wahân yn yr Alban.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau rheolaidd arfaethedig i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 sy'n cymhwyso cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol ac amodau arbennig sy'n llywodraethu mynediad bwyd a bwyd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr o wledydd penodol.

## Diben yr ymgynghoriad

Gofyn am sylwadau rhanddeiliaid ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793.

## Sut i ymateb

Dylid ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy anfon neges â'r teitl 'Ymgynghoriad Rheoliad 2019/1793' i **LASupportWales@food.gov.uk** (yng Nghymru) neu **imported.food@food.gov.uk** (yn Lloegr).

# Manylion yr ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Pan ymadawodd y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE), cafodd deddfwriaeth bwyd a oedd mewn grym ar y pryd ei dargadw a'i domestigeiddio er mwyn iddi barhau'n weithredol. Cyn i'r DU ymadael â'r UE, roedd diweddariadau rheolaidd i ddeddfwriaeth bwyd a fewnforir, a wneir gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn uniongyrchol gymwysadwy yn y DU. Wrth symud ymlaen, mae'r awdurdodau priodol ym Mhrydain Fawr bellach yn gyfrifol am adolygu a diwygio'r ddeddfwriaeth yn ôl y gofyn. Yr awdurdodau priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, Gweinidogion Cymru yng Nghymru, a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban. Mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol adolygu'r rhestrau a nodir yn yr Atodiadau i'r Rheoliad yn rheolaidd er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru a Lloegr a Safonau Bwyd yr Alban yn yr Alban wedi cynnal adolygiad ar y cyd o'r Atodiadau a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth. Dyma'r adolygiad cyntaf o'i fath ers i'r DU ymadael â'r UE, a bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau ar ein diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliad. Bydd diwygio'r rheolaethau cyfredol yn gofyn am osod Offeryn Statudol ym mhob gwlad.

Cyflawnir yr adolygiad hwn trwy broses dadansoddi risg ar y cyd rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban fel y gall Gweinidogion wneud penderfyniadau rheoli risg ar sail argymhellion yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

Dylid nodi taw dim ond at Brydain Fawr y cymhwysir penderfyniadau a newidiadau o ran rheolaethau ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd, ac nid Gogledd Iwerddon, oherwydd goruchafiaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yng Ngogledd Iwerddon o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

### Rheolaethau cyfredol

Gellir mewnforio'r rhan fwyaf o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr heb reolaethau ychwanegol, uwch. Fodd bynnag, dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau a gymeradwywyd yn briodol y gall mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch nad ydynt yn dod o anifeiliaid o wledydd penodol ddod i mewn i'r DU lle bo rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal, fel archwiliadau dogfennol, adnabod, a ffisegol, gan gynnwys samplu. Mae cynnyrch risg uwch yn fwyd neu fwyd anifeiliaid sydd naill ai wedi'i nodi fel risg hysbys i iechyd y cyhoedd neu risg i iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg. Gall hyn fod oherwydd presenoldeb pathogenau, halogion, a thocsinau, gan gynnwys afflatocsinau.

Mae Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn nodi rhestrau o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn ei Atodiadau.

Mae llwythi bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad I i Reoliad 2019/1793 yn destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau wrth gyrraedd Prydain Fawr ac mewn mannau rheoli.

Mae Atodiad II i Reoliad 2019/1793 yn nodi'r rhestr o lwythi bwyd a bwyd anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol sy'n destun amodau mynediad arbennig ar gyfer Prydain Fawr oherwydd risg halogiad gan fycotocsinau, gan gynnwys afflatocsinau, gweddillion plaladdwyr, pentacloroffenol a diocsinau, a halogiad microbiolegol.

Mae'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad IIa wedi'u hatal rhag dod i mewn i Brydain Fawr.

### Adolygiad

Dyma'r adolygiad cyntaf o fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ers i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r adolygiad wedi dilyn y broses dadansoddi risg a sefydlwyd gan yr ASB a Safonau

Bwyd yr Alban. Mae'r holl argymhellion wedi'u datblygu a'u hystyried gan weithgor pedair-gwlad arbenigol, a chytunwyd arnynt gan swyddogion yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, a Lloegr. O dan delerau Protocol Gogledd Iwerddon o dan Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, nodir y bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso rheoliadau'r UE yn y maes hwn.

Mae asesiadau risg manwl ar gyfer nwyddau a gwledydd wedi'u hystyried gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, yn ogystal â thystiolaeth ategol fel Hysbysiadau Ffiniau a data samplu. Mae'r holl argymhellion a gynigir wedi'u seilio ar wyddoniaeth a thystiolaeth.

Mae'r argymhellion arfaethedig wedi bod yn destun asesiad risg gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata mewnforion Prydain Fawr, sy'n nodi cyfanswm mewnforion o'r fath, canlyniadau samplu, nifer y llwythi y canfuwyd nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid Prydain Fawr, cysylltiad disgwyliedig defnyddwyr â'r nwyddau, a'r risg y gallai ei pheri i iechyd y cyhoedd. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried gwybodaeth arall gan awdurdodau rhyngwladol a llenyddiaeth a adolygir gan gymheiriaid.

## Prif gynigion:

Mae'r gweithgor arbenigol wedi datblygu set o argymhellion ynghylch nwyddau sydd, yn ein barn ni, yn gofyn am newidiadau i lefel y rheolaethau swyddogol. Mae'r argymhellion arfaethedig i'w gweld yn adran 'effeithiau' y ddogfen hon. Bydd rhai nwyddau, y mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes angen mwy o reolaethau swyddogol arnynt bellach oherwydd bod y risg wedi'i rheoli'n effeithiol trwy gydymffurfiaeth well, yn cael eu tynnu oddi ar y rhestrau, tra bydd amlder gwirio rheolaethau eraill yn cynyddu neu'n lleihau gan ddibynnu ar lefel y risg a berir. Cynigir addasiadau er mwyn adlewyrchu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad o hyd at fwyd a fewnforir sy'n ddiogel.

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r argymhellion hyn i Weinidogion. Mae diogelwch bwyd yn fater datganoledig, a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan weinidogion ym mhob gwlad ddatganoledig.

Bydd angen cyflwyno is-deddfwriaeth ym mhob gwlad i ddiwygio Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793. Bwriedir y bydd deddfwriaeth i weithredu canlyniad yr adolygiad hwn yn dod i rym yn hydref 2022.

## Effeithiau

Mae'r diwygiad arfaethedig yn ymgorffori 26 o ddiweddariadau unigol, sy'n cael eu hesbonio yn y tabl drosodd. Dyma'u crynhoi:

- Mae 3 chynnyrch wedi'u tynnu o gwmpas y rheolaethau. Rydym wedi bod yn monitro lefelau cydymffurfio'r nwyddau hyn ers iddynt gael eu rhestru yn yr Atodiadau sawl blwyddyn yn ôl. Mae data a gafwyd trwy ein System Rhybuddio Cynnar (EWS) a thrwy hysbysiadau ffiniau a hysbysiadau eraill yn dangos bod lefel y risg wedi lleihau yn sylweddol. Ar sail ein hasesiad o'r data, nid oes angen y rheolaethau uwch hyn ar waith mwyach gan ei fod yn dangos gyda lefel uchel o sicrwydd y byddai tynnu'r rheolaethau hyn yn peri risg ddibwys i iechyd y cyhoedd. Felly, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros gadw'r mesurau cyfredol ar waith.

- Bydd 5 cynnyrch yn destun llai o wiriadau. A'r nwyddau hyn eisoes wedi bod yn destun y lefel uchaf o reolaethau uwch dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi casglu digon o ddata i'n gwneud yn hyderus bod lefel y cydymffurfio yn gwella. Bydd y cynhyrchion hyn yn destun y lefel hon o fonitro nes ein bod wedi'n bodloni bod y risg a berir wedi lleihau ymhellach.

- Bydd 14 cynnyrch yn destun rhagor o reolaethau uwch am fod gennym bryderon ynghylch y risg maen nhw'n ei pheri i iechyd y cyhoedd. Mae'r nwyddau hyn wedi bod yn destun monitro a gwyliadwriaeth yn Safleoedd Rheoli Ffiniau Prydain Fawr dros sawl blwyddyn. Mae'r wybodaeth a gafwyd trwy'r rheolaethau hyn, yn ogystal â data o wledydd eraill, yn dangos nad yw lefelau diffyg cydymffurfio yn gwella. O'r herwydd, bernir ar hyn o bryd fod angen rheolaethau llymach, gan roi pwyslais ar y wlad sy'n allforio i roi sicrwydd ynghylch y cynnyrch.

- Cyflwynir 4 cynnyrch newydd sy'n gofyn am gynnal rheolaethau uwch oherwydd pryderon eu bod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r nwyddau hyn wedi'u nodi trwy EWS yn ogystal â data samplu a gwybodaeth o ffynonellau eraill. Bydd y cynhyrchion yn destun lefel gymesur o fonitro yn Safleoedd Rheoli Ffiniau Prydain Fawr i gasglu tystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i

gyfiawnhau naill ei eu tynnu o’r rheolaethau yn gyfan gwbl neu gynyddu lefel y gwiriadau a gynhelir.

Mae’r nwyddau a restrir yn Atodiad I i’r Rheoliad yn cael eu rheoli dros dro er mwyn helpu i bennu a allai fod angen mesurau llymach yn ddiweddarach. O’r herwydd, mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn rhai byrdymor. Mae’r nwyddau a gynhwysir yn Atodiad II i’r Rheoliad yn fwy sefydlog eu natur, ond cânt eu cynnwys yn yr adolygiad a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Unwaith y bydd y lefel risg yn newid, bydd lefel y rheolaeth yn cael ei diwygio. Mae’r nwyddau a restrir yn yr Atodiadau i Reoliad 2019/1793 wedi’u seilio ar risg, ac felly maent yn ymwneud â’r wlad tarddiad benodol yn unig. Felly gall mewnforwyr y DU fewnforio o wledydd eraill ar draws y byd nad yw eu cynhyrchion wedi’u nodi fel rhai ‘risg uchel’ a lle na fo rheolaethau mewnforio’n berthnasol.

Mae’n debygol y bydd costau ymgyfarwyddo nominal i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd mewn perthynas â’r diweddariadau rheolaidd. Gellir adennill costau cynnal rheolaethau swyddogol ar y ffin trwy godi ffioedd a thaliadau. Dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau sydd eisoes wedi’u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel.

Felly am y rhesymau a amlinellir, ni chynhyrchwyd asesiad effaith ar gyfer y Rheolaethau hyn, y mae’r ASB wedi ardystio eu bod yn is na’r trothwy *de minimis* +/- £5m o ran y gost uniongyrchol net flynyddol gyfwerth i fusnesau.

Nodir y bwyd a’r bwyd anifeiliaid a restrir yn yr Atodiadau ar sail y codau o is-adran y Gyfundrefn Enwi Gyfun a TARIC.

Nodir yr argymhellion arfaethedig yn y tabl canlynol.

**Nwyddau sydd wedi’u tynnu o’r rheolaethau**

| **Nwydd** | **Gwlad** | **Perygl** | **Argymhelliad Rheoli Risg** |
|---|---|---|---|
| **Aeron goji** (Bwyd)<br><br>ex 0813 40 95 10,<br><br>ex 0810 90 75 10 | **Tsieina** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Dad-restru |

| Nwydd | Gwlad | Perygl | Argymhelliad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| **Grawnwin sych**<br><br>(Bwyd)<br><br>0806 20 | **Twrci** | **Ocratocsin A** | Atodiad I – Dad-restru |
| **Cnau Pistasio** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>0802 51 00, 0802 52 00<br><br>ex 2008 19 13,<br><br>ex 2008 19 93 | **UDA** | **Afflatocsinau** | Atodiad I – Dad-restru |

## Nwyddau sy’n destun llai o wiriadau

| Nwydd | Gwlad | Perygl | Argymhelliad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| **Cnau daear** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>1202 41 00, 1202 42 00, 2008 11 10, 2008 11 91; 2008 11 96; 2008 11 98, 2305 00 00,<br><br>ex 1208 90 00 20 | **Brasil** | **Afflatocsinau** | Symud o Atodiad II i Atodiad I ar 10% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Cnau daear** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>1202 41 00, 1202 42 00, 2008 11 10, 2008 11 91; 2008 11 96; 2008 11 98, 2305 00 00,<br><br>ex 1208 90 00 20 | **Tsieina** | **Afflatocsinau** | Symud o Atodiad II i Atodiad I – lleihau gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 10% |
| **Cnau cyll** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>0802 21 00, 0802 22 00,<br><br>ex 0813 50 39 70, | **Twrci** | **Afflatocsinau** | Symud o Atodiad II i Atodiad I ar 5% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |

| Nwydd | Gwlad | Perygl | Argymhelliad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| ex 0813 50 91 70,<br><br>ex 0813 50 99 70,<br><br>ex 2007 10 10 70,<br><br>ex 2007 10 99 40,<br><br>ex 2007 99 39 05;06,<br><br>ex 2007 99 50 33,<br><br>ex 2007 99 97 23,<br><br>ex 2008 19 12 15,<br><br>ex 2008 97 14 15,<br><br>ex 2008 97 16 15,<br><br>ex 2008 97 18 15,<br><br>ex 2008 97 32 15,<br><br>ex 2008 97 34 15,<br><br>ex 2008 97 36 15,<br><br>ex 2008 97 38 15,<br><br>ex 2008 97 51 15,<br><br>ex 2008 97 59 15,<br><br>ex 2008 97 72 15,<br><br>ex 2008 97 74 15,<br><br>ex 2008 97 76 15,<br><br>ex 2008 97 78 15,<br><br>ex 2008 97 92 15,<br><br>ex 2008 97 93 15,<br><br>ex 2008 97 94 15, | | | |

| Nwydd | Gwlad | Perygl | Argymhelliad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| ex 2008 97 96 15,<br><br>ex 2008 97 97 15,<br><br>ex 2008 97 98 15,<br><br>ex 2008 19 12 30,<br><br>ex 2008 19 19 30,<br><br>ex 2008 19 92 30,<br><br>ex 2008 19 95 20,<br><br>,ex 2008 19 99 30,<br><br>ex 1106 30 90 40,<br><br>ex 1515 90 99 20 | | | |
| **Dail betel (*Piper betle*)** (Bwyd)<br><br>1404 90 00 10 | **Banglad esh** | ***Salmonela*** | Symud o Atodiad IIa i Atodiad II ar 50% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Hadau sesame** (Bwyd)<br><br>1207 40 90 | **Ethiopia** | ***Salmonela*** | Symud o Atodiad I i Atodiad II ar 50% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |

**Nwyddau sy'n destun mwy o reolaethau uwch**

| Nwydd | Gwlad | Perygl | Argymhelliad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| **Pupur du (*Piper nigrum*)** (Bwyd)<br><br>ex 0904 11 00 10 | **Brasil** | ***Salmonela*** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 50% |

| **Nwydd** | **Gwlad** | **Perygl** | **Argymhelliad Rheoli Risg** |
|---|---|---|---|
| **Pupurau o'r rhywogaeth *Capsicum* (ac eithrio rhai melys)** (Bwyd)<br><br>ex 0709 60 99 20, ex 0710 80 59 20 | **Gwlad Thai** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 20% |
| **Cnau daear** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>1202 41 00, 1202 42 00,<br><br>2008 11 10, 2008 11 91,<br><br>2008 11 96, 2008 11 98,<br><br>2305 00 00,<br><br>ex 1208 90 00 20 | **India** | **Afflatocsinau** | Atodiad II – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 50% |
| **Hadau sesame** (Bwyd)<br><br>1207 40 90 | **Ethiopia** | ***Salmonela*** | Symud o Atodiad I i Atodiad II ar 50% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Ocra** (Bwyd)<br><br>ex 0709 99 90 20<br><br>ex 0710 80 95 30 | **India** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 20% |
| **Hadau sesame** (Bwyd)<br><br>1207 40 90 | **Swdan** | ***Salmonela*** | Atodiad II – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 50% |
| **Pupurau o'r rhywogaeth *Capsicum* (melys neu heblaw am rai melys)** (Bwyd)<br><br>0904 21 10<br><br>ex 0904 21 90 20 | **Sri Lanka** | **Afflatocsinau** | Symud o Atodiad I i Atodiad II ar 50% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |

| **Nwydd** | **Gwlad** | **Perygl** | **Argymhelliad Rheoli Risg** |
|---|---|---|---|
| ex 0904 22 00 11,19<br><br>ex 2005 99 10 10,90<br><br>ex 2005 99 80 94 | | | |
| **Orennau** (Bwyd)<br><br>0805 10 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 20% |
| **Mandarinau, clementinau, wilkings a hybridau sitrws tebyg** (Bwyd)<br><br>0805 21, 0805 22, 0805 29 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 5% i 20% |
| **Pupurau Melys (*Capsicum annuum*)** (Bwyd)<br><br>0709 60 10<br><br>0710 80 51 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 20% |
| **Dail gwinwydd** (Bwyd)<br><br>ex 2008 99 99 11, 19 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad II – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 50% |
| **Jacffrwyth** (Bwyd)<br><br>ex 0810 90 20 20 | **Malaysia** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 50% |
| **Pupurau o'r rhywogaeth *Capsicum* (ac eithrio rhai melys)** (Bwyd)<br><br>ex 0709 60 99<br><br>ex 0710 80 59 | **Uganda** | **Gweddillion plaladdwyr** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 20% i 50% |
| **Cnau daear** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>1202 41 00, 1202 42 00 | **UDA** | **Afflatocsinau** | Atodiad I – Cynyddu gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol o 10% i 20% |

| **Nwydd** | **Gwlad** | **Perygl** | **Argymhelliad Rheoli Risg** |
|---|---|---|---|
| 2008 11 10, 2008 11 91<br><br>2008 11 96, 2008 11 98<br><br>ex 1208 90 00 20, 2305 00 00 | | | |

**Cynhyrchion newydd sydd angen rheolaethau uwch**

| **Nwydd** | **Gwlad** | **Perygl** | **Argymhelliad Rheoli Risg** |
|---|---|---|---|
| **Cnau daear** (Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)<br><br>1202 41 00, 1202 42 00, 2008 11 10, 2008 11 91; 2008 11 96; 2008 11 98, 2305 00 00,<br><br>ex 1208 90 00 20 | **Brasil** | **Gweddillion plaladdwyr** | Ychwanegu at Atodiad I ar 20% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Lemonau** (Bwyd)<br><br>0805 50 10 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Ychwanegu at Atodiad I ar 20% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Pupurau o'r rhywogaeth *Capsicum* (ac eithrio rhai melys)**<br><br>(Bwyd)<br><br>ex 709 60 99 20<br><br>ex 710 80 59 20 | **Twrci** | **Gweddillion plaladdwyr** | Ychwanegu at Atodiad I ar 20% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |
| **Dail betel (*Piper betle*)** (Bwyd)<br><br>1404 90 00 | **Gwlad Thai** | ***Salmonela*** | Ychwanegu at Atodiad I ar 10% gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol |

- **Nodiadau:** Nodir y cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiadau I, II a IIa ar sail y codau o is-adran y Gyfundrefn Enwi Gyfun a TARIC a geir yn yr Atodiadau. Mae'r gwiriadau adnabod a'r gwiriadau ffisegol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys samplu a dadansoddi

labordy, a restrir yn yr Atodiadau i'w cynnal ar amlder a nodir yn yr Atodiadau.

- Mae llwythi bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad I i Reoliad 2019/1793 yn destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau wrth gyrraedd Prydain Fawr ac mewn mannau rheoli. Mae Atodiad II i Reoliad 2019/1793 yn nodi'r rhestr o lwythi bwyd a bwyd anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol sy'n destun amodau mynediad arbennig ar gyfer Prydain Fawr oherwydd risg halogiad gan fycotocsinau, gan gynnwys afflatocsinau, gweddillion plaladdwyr, pentacloroffenol a diocsinau, ac oherwydd halogiad microbiolegol. Mae'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid a restrir yn Atodiad IIa wedi'u hatal rhag dod i mewn i Brydain Fawr.

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos tan ddydd Iau 7 Gorffennaf 2022. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, cynhelir adolygiad llawn o'r canlyniadau a chyhoeddir adroddiad ymgynghori.

**Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:**

1. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr argymhellion o ran gwlad tarddiad/nwyddau a gynigir i ddiwygio Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793?
2. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r diwygiadau arfaethedig o ran nwyddau eu cael sydd heb eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

## Ymatebion

Bydd angen i ymatebion ddod i law erbyn dydd Iau 7 Gorffennaf 2022. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

**Anfonwch eich ymateb,** gyda'r teitl 'Ymgynghoriad Rheoliad 2019/1793' i **LASupportWales@food.gov.uk** (Cymru) neu **imported.food@food.gov.uk** (Lloegr).

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau, sydd i'w gael fan hyn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

David Lowe, Rheolwr Strategaeth Mewnforion ac Allforion

Owen Lewis, ASB yng Nghymru

## Atodiad A: Rhestr o bartïon â buddiant

- Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr
- Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr
- Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (APHA)
- Grŵp Porthladdoedd Mawr y DU
- Gweithredwyr Meysydd Awyr y DU
- Cynrychiolwyr Cynnyrch Ffres
- Cynrychiolwyr Diwydiant Lletygarwch y DU
- Cynrychiolwyr Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Cynrychiolwyr Mewnforwyr Bwyd Prydain
- Sefydliadau pecynnu
- Archfarchnadoedd y DU
- Cynrychiolwyr siopau cyfleustra
- Consortiwm Manwerthu Prydain
- Which?